**PWYLLGOR SAFONAU**

**17 Mai 2023**

Yn bresennol (yn bersonol):
Mr J Daniels, Cynghorydd S Hancock

Yn bresennol (o bell):
Mr P Davies, Cynghorydd M James, Mrs W Taylor a Mrs V Tomlinson

(Parc Llanion, Doc Penfro: 2.05pm – 2.50pm)

**1. Ethol Cadeirydd**
Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan Mrs W Taylor, **PENDERFYNWYD** ethol Mr J Daniels yn Gadeirydd am gyfnod ei swydd.

Gan gymryd y Gadair, diolchodd Mr J Daniels i'r Aelodau am y ffydd a ddangoswyd ynddo ac ychwanegodd ei fod yn edrych ymlaen at dymor arall yn y swydd. Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd oedd newydd ymddeol am ei chyfraniadau a'i hymrwymiad i'r Awdurdod dros y blynyddoedd, ac ar ran yr holl Aelodau, dymunodd ymddeoliad hir a iach iddi.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Dr R Plummer.

**3. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**4. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022 i’w cadarnhau a’u llofnodi.

Ar gynnig Mrs V Tomlinson, a eiliwyd gan Mrs W Taylor, **PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022.

**5. Adroddiad Blynyddol y Swyddog Monitro 2022/23**
Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i’r Swyddog Monitro a gyflwynodd ei adroddiad blynyddol oedd yn cynnwys gwybodaeth am gylch gorchwyl y Pwyllgor, y Corona-feirws, Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad, Cwynion, adroddiad ar fudd y cyhoedd gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â Bannau Brycheiniog, y Protocol Datrys Lleol, Goddefebau, y Polisi Gweithredoedd Annerbyniol gan Achwynwyr, Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon a’r Ymgynghoriad ar Adroddiad Penn.

A) Hyfforddiant

Dywedwyd y byddai sesiwn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad yn cael ei chynnal ar ôl cyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 21 Mehefin 2023, ac mewn ymateb i gwestiwn a godwyd, cadarnhawyd y byddai'r sesiwn hybrid hon yn agored i Aelodau'r Pwyllgor Safonau. Yna eglurodd y Swyddog gynnwys yr hyfforddiant a pha mor bwysig yw bod yr Aelodau yn mynychu.

B) Polisi Cwynion

Dywedodd y Swyddog Monitro mai ei obaith oedd rhoi diweddariad ar lafar i'r Aelodau ar y Polisi Cwynion enghreifftiol. Fodd bynnag gan nad oedd wedi cael cyfle i drafod y mater hwn gyda'r Swyddog arweiniol o'r Awdurdod Safonau Cwynion, ni allai roi'r wybodaeth ddiweddaraf. Eglurodd y Swyddog ei fod angen eglurhad ar elfennau o'r Polisi, ac felly gofynnodd am i'r argymhelliad dan sylw yn ei adroddiad gael ei ohirio hyd nes y cynhelir y drafodaeth hon.

C) Cwynion Presennol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hyd at 18 Ebrill 2023, dywedwyd bod 11 o'r 24 o gwynion a gofnodwyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn ymwneud â'r cynnydd ym Mhrisiau Tocynnau Tymor Meysydd Parcio. Cadarnhawyd bod 1 gŵyn oedd yn ymwneud â phrisiau Tocynnau Tymor Meysydd Parcio wedi'i huwch-gyfeirio at yr Ombwdsmon gan fod yr achwynydd yn anfodlon ag ymateb y Swyddog Monitro. Fodd bynnag cafodd y gŵyn ei gwrthod ar y sail nad oedd unrhyw ddiffyg wedi'i glustnodi yn y modd y gwnaed y penderfyniad nac yn y modd y cafodd y gŵyn ei chyflwyno i'r Awdurdod.

Cadarnhawyd ers cyhoeddi'r adroddiad blynyddol bod cwynion wedi dod i law ynghylch caffael tir ar y Traeth Mawr, Trefdraeth.

D) Goddefeb

Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi croesawu Aelod newydd, y Cynghorydd B Price, ac y byddai goddefeb gyffredinol yn cael ei rhoi ar ei chyfer.

E) Polisi gweithredoedd annerbyniol gan achwynwyr

Roedd yr adroddiad yn trafod y cynnydd cyffredinol mewn ymddygiad gwael gan nifer fach o unigolion tuag at aelodau o'r staff o fewn yr Awdurdod a bod y staff yn cytuno y dylid cyflwyno polisi i reoli digwyddiadau o'r fath. Gwahoddodd y Swyddog Monitro y Cyfarwyddwr Creu Lleoedd, Datgarboneiddio ac Ymgysylltu i roi trosolwg i'r Aelodau o'i phrofiad hithau o ran digwyddiadau o'r fath ac eglurhad ynghylch pam y bernir ei bod yn briodol cael polisi yn ei le i fynd i'r afael â'r cyfryw ymddygiad. Rhoddodd y Swyddog enghreifftiau i'r Aelodau o ymddygiad gwael a welwyd yn y gorffennol ac i ddangos y modd y byddai'r polisi yn cynorthwyo'r staff.

Gofynnodd Aelod ai staff yr Adran Gynllunio oedd yn dioddef y rhan fwyaf o’r ymddygiad gwael, a beth yw’r arfer ar hyn o bryd i ddelio ag achwynwyr cyson. Cadarnhaodd y Swyddog, er bod Aelodau'r Adran Gynllunio yn delio â galwadau ymosodol dros y ffôn, roedd adrannau eraill megis y Dderbynfa hefyd yn delio â galwadau o'r math hwn. Ychwanegodd y Swyddog, mewn achosion lle’r oedd aelodau o’r staff yn cael galwadau difrïol dros y ffôn, eu bod yn cael eu cynghori i ddod â'r alwad i ben, ond roedd y Rheolwyr yn ymwybodol nad oedd polisi addas yn ei le i'w cefnogi pe bai cwynion yn codi.

Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan Aelod, cadarnhaodd y Swyddog Monitro bod y Polisi arfaethedig wedi’i lunio drwy addasu polisi enghreifftiol gan Gyngor Sir Mynwy (gyda’u caniatâd), lle mae’r polisi hwn wedi bod yn ei le ers tua degawd ac yn cael ei ystyried yn bolisi gwerthfawr wrth ddatrys cwynion cyson. Eglurodd y Swyddog Monitro wedyn i'r Aelodau y modd yr addaswyd y polisi i sicrhau ei fod yn berthnasol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Gofynnodd Aelod a oedd yr Awdurdod yn recordio sgyrsiau ffôn ar hyn o bryd, a chadarnhaodd y Swyddog nad oedd unrhyw sgyrsiau ffôn yn cael eu recordio ar hyn o bryd.

Yn dilyn y sylwadau cadarnhaol gan yr Aelodau ynghylch y polisi, gofynnodd y Cadeirydd beth fyddai'r camau nesaf. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro pe bai'r Aelodau yn cymeradwyo'r polisi, yna byddai'n cael ei ddosbarthu i gyfarfodydd y Cynrychiolwyr Staff a'r Tîm Rheoli cyn y byddai’r adroddiad yn cael ei gyflwyno i’r Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w gymeradwyo.

F) <u>Ymgynghoriad ar Adroddiad Penn</u>
Atgoffwyd yr Aelodau bod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd, fis Mawrth 2021, wedi comisiynu Adolygiad annibynnol o'r Fframwaith Safonau Moesegol ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Cynhaliwyd yr adolygiad annibynnol gan Richard Penn. Nodwyd mai canfyddiad cyffredinol yr adroddiad oedd bod y system bresennol yn gweithio'n dda, ac nad oedd angen gwneud unrhyw ddiwygiadau mawr. Fodd bynnag, roedd ymgynghoriad wedi’i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru oedd yn adeiladu ar argymhellion yr Adolygiad gan gymryd y trafodaethau hyn a dulliau eraill o gyfathrebu i ystyriaeth. Gofynnodd y Swyddog Monitro felly am awdurdod dirprwyedig i ymateb i'r ymgynghoriad oedd yn deillio o adroddiad Penn. Cytunwyd y byddai'r Aelodau yn cael copïau o ymateb y Swyddog Monitro.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **PENDERFYNWYD**;

i) nodi'r adroddiad.

ii) yn amodol ar gymeradwyaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, bod y Pwyllgor Safonau yn cytuno bod angen polisi sy’n ymdrin ag ymddygiad annerbyniol achwynwyr ac yn cymeradwyo’r polisi drafft atodedig.
iii) bod yr Aelodau yn dirprwyo i'r Swyddog Monitro yr awdurdod i anfon ymateb yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'r ymgynghoriad sy'n deillio o adroddiad Penn.
iv) bod yr Aelodau yn derbyn diweddariad ar y Polisi Cwynion enghreifftiol unwaith y bydd trafodaethau yn cael eu cynnal gyda Swyddog Arweiniol yr Awdurdod Safonau Cwynion.

6. Unrhyw Fater Arall

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau ei fod wedi mynychu cyfarfod rhithiol o Gadeiryddion Pwyllgor Safonau y Fforwm Cenedlaethol fis Ionawr, a’i fod wedi cael budd o’r trafodaethau. Ychwanegwyd eu bod yn anelu at gyfarfod ddwywaith y flwyddyn i rannu arfer gorau ac adnoddau hyfforddiant. Ychwanegodd y Swyddog Monitro ei fod yntau hefyd wedi mynychu cyfarfodydd rheolaidd o'r grŵp Swyddogion Monitro lle rhennir arfer gorau ac adnoddau.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 01 Mai 2024 heb eu diwygio. |